Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

# Adroddiad Ymgysylltu

Gwasanaethau Cymorth Adsefydlu Cymunedol
Gwasanaethau i'r rhai sy'n Goroesi Strôc

Chwefror 2023



| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad a chefndir | 3 |
| Adborth a gafwyd | 4 |
| Casgliad | 12 |
| Argymhellion | 13 |
| Diolchiadau | 14 |
| Ynglyn â Chynghorau Iechyd Cymuned | 15 |
| Manylion cyswllt | 16 |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 17 |
| Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth | 20 |

# Cyflwyniad a chefndir

Fel Cyngor Iechyd Cymuned, â dyletswydd statudol i fonitro gwasanaethau iechyd a chraffu arnynt, roeddem yn awyddus i glywed gan bobl sy'n defnyddio Gwasanaethau'r GIG yn y Gymuned, ar ôl cael strôc.

Roeddem wedi ceisio ymgysylltu â phobl oedd wedi cael triniaeth fel cleifion mewnol ar ôl cael strôc. Fodd bynnag, dim ond pum ymateb a gawsom. Fel CIC, roedd yn bwysig ein bod yn parhau â'n hymdrechion i ymgysylltu â'r gymuned er mwyn cael adborth gan bobl am y gwasanaeth a gawsant neu y maent yn parhau i'w gael.

Ar gyfer y prosiect hwn, cafodd arolwg ei lunio a'i gyhoeddi drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan. Anfonwyd yr arolwg hefyd at ein rhanddeiliaid allanol er mwyn cynyddu'r cwmpas. Roedd yr arolwg ar agor rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Ionawr 2023.

Gwnaethom hefyd gynnal sesiwn galw heibio wyneb yn wyneb yn ein swyddfeydd yng Nghwmbrân. Diben y sesiwn hon oedd rhoi'r cyfle i bobl rannu eu hadborth mewn ffordd wahanol, yn hytrach na chwblhau arolwg ar-lein. Roedd gwirfoddolwyr CIC ar gael i siarad â phobl yn y sesiwn galw heibio hon. Un person a alwodd heibio.

Hoffai'r CIC ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i rannu ein harolwg ar y cyfryngau cymdeithasol neu drwy e-bost.






# Adborth a gafwyd

## Ymatebion

Aeth **16** o bobl ati i lenwi ein harolwg a rhoi eu profiad o ddefnyddio gwasanaethau'r GIG yn y gymuned er mwyn cefnogi eu proses wella ar ôl cael strôc.

Clywsom gan bobl sydd wedi goroesi strôc a'r rheini sy'n gofalu (neu a oedd yn arfer gofalu) am rywun sy'n gwella ar ôl cael strôc.

Gwnaethom ofyn i'r bobl pa ysbyty roeddent wedi cael eu rhyddhau ohono ar ôl iddynt gael strôc. Mae hyn am ein bod am gael gwybod a oedd y rheini a oedd wedi cael eu rhyddhau o ysbyty y tu allan i ardal Aneurin Bevan wedi cael gwybod bod gwasanaethau'r GIG ar gael iddynt yn y gymuned.

## Cyfathrebu

Roedd tri pherson a lanwodd ein harolwg wedi cael eu rhyddhau o ysbyty y tu allan i ardal Aneurin Bevan, ond yn byw yn yr ardal bellach. Dywedodd dau o'r rhain wrthym nad oeddent yn teimlo eu bod wedi cael gwybod/cynnig unrhyw wasanaethau cymorth adsefydlu cymunedol i'w helpu i wella.

Rhoddodd un person ragor o sylwadau: *"Ni chefais fy nghyfeirio'n ddigonol at y gwasanaethau hyn fel claf, gan fy mod yn oroeswr strôc hirdymor, ac ni chefais fy rhyddhau o fewn BIPAB. Nid yw fy meddygfa wedi fy nghyfeirio at unrhyw wasanaethau cymorth strôc ac nid yw BIPAB wedi gwneud unrhyw ymdrech i gyfathrebu â mi ar fy nhaith i wella o'r strôc. Felly rwyf wedi bod yn teimlo'n unig iawn fel goroeswr strôc."*

Dywedodd y bobl a oedd wedi cael eu rhyddhau o ysbyty yn ardal Aneurin Bevan wrthym eu bod wedi cael gwybod am wasanaethau cymorth adsefydlu cymunedol gan y canlynol:

- meddyg teulu
- Y Gymdeithas Strôc
- Staff Ysbyty
- Grwpiau Cymorth Cymunedol Lleol
- Ysbyty
- Ffisiotherapyddion

## Cael gafael ar wasanaethau

Clywsom gan bobl a oedd wedi defnyddio'r Gwasanaethau GIG canlynol i helpu i gefnogi eu hanghenion wrth wella ar ôl strôc:

- Tîm Strôc Cymunedol
- Ffisiotherapi
- Therapyddion Galwedigaethol
- Gwasanaethau Sbastigedd
- Gwasanaethau Cwnsela
- Nyrsys/Meddygon Arbenigol
- Therapyddion Lleferydd ac Iaith
- Gwasanaeth Byw'n Dda Ar Ôl Strôc
- Orthoteg a Chymhorthion Symudedd
- Gwasanaeth Rhyddhau Cynnar ar ôl Strôc gyda Chymorth
- Y Niwrostiwt (Coleg Gwella o Gyflyrau Niwrolegol)
- Grwpiau Cymorth Cymunedol (Na chânt eu hariannu gan y GIG)
- Gwasanaethau Meddygon Teulu
- Seicolegydd
- Deietegyddion
- Offthalmoleg
- Podiatreg/Gofal traed

## Derbyn gofal

Roeddem am gael gwybod sut roedd pobl yn graddio eu profiad o dderbyn gofal/triniaeth/cymorth gan Wasanaethau'r GIG. Canfuom y canlynol:

Nododd y rhan fwyaf o'r bobl a ddefnyddiodd y Tîm Strôc Cymunedol, Therapyddion Galwedigaethol, Gwasanaeth Cymorth i Gleifion Strôc a Ryddheir yn Gynnar, a Gwasanaethau Meddyg Teulu eu bod wedi cael profiad *"da".*



Roedd yn siomedig canfod bod pobl a ddefnyddiodd Wasanaethau Sbastigedd, Gwasanaethau Cwnsela, Gwasanaeth Byw'n Dda Ar Ôl Strôc, y Niwrostiwt (Coleg Gwella o Gyflyrau Niwrolegol) wedi nodi eu bod wedi cael profiad *"gwael iawn".*

Nododd eraill bod eu profiad o ddefnyddio'r Gwasanaethau GIG canlynol yn *"iawn":*Nyrsys/Meddygon Arbenigol, Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Orthoteg a Chymhorthion Symudedd, Offthalmoleg a Phodiatreg/Gofal traed.

Sylwadau ychwanegol:

*"Eto, rwy'n pryderu nad yw BIPAB yn dangos unrhyw ddiddordeb mewn nodi goroeswyr strôc hirdymor sy'n byw yn y gymuned, cyfathrebu â nhw na'u trin. Rydyn ni'n teimlo ein bod wedi cael ein gadael."*

*"Dydw i ddim wedi cael cymorth strôc yn y gymuned, mae'r wybodaeth yn wael iawn, dydw i ddim wedi cael fy nghyfeirio at unrhyw dîm cyfleuster strôc cymunedol a doeddwn i ddim yn gwybod amdano. Mae gwasanaethau sbastigedd yn jôc. Chefais i ddim cynnig unrhyw ymyriad er fy mod wedi gofyn yn daer. Mae'n amhriodol i mi fel goroeswr strôc iau gael fy ngweld o dan ofal ar gyfer uned i bobl oedrannus.*

*"Mae'r grŵp cymorth yn y gymuned yn wych, dydw i ddim wedi defnyddio rhai eraill."*

*"Cafodd fy ngwraig strôc yn 2012 a bu farw yn ddiweddar. Ar ôl ei strôc chawson ni ddim gwybod am yr help a'r cymorth sydd ar gael gan y Gymdeithas Strôc. Rwyf wedi bod yn ysgrifennydd Grŵp Cymorth Strôc (ardal wedi'i golygu) ers dros ddeng mlynedd ond dydw i ddim wedi gallu*

*meithrin unrhyw gydberthynas â'r ysbyty ynghylch goroeswyr strôc sydd ar fin cael eu rhyddhau a'r help a'r cymorth y gallwn ei ddarparu."*

*"Cafodd strôc bum mlynedd yn ôl sydd wedi arwain at sgiliau cyfathrebu gwael iawn, dirywiad o ran cyfathrebu a chynnydd mewn colled cof byrdymor, a phroblemau canolbwyntio, darllen a sgiliau gweithgarwch/symudedd. Ni chafodd unrhyw gefnogaeth ar ôl cael ei ryddhau o'r ysbyty ac ni ddangosodd unrhyw weithiwr iechyd proffesiynol ddiddordeb ynddo na pharodrwydd i gynnig help a chynnig parhaus sy'n golygu bod y goroeswr strôc wedi mynd yn garcharor yn ei gartref ei hun!"*

*"Pan adawais yr ysbyty ar ôl 1.5 mlynedd, doedd gen i ddim gwybodaeth am y cymorth y gallwn ei gael. Bu'n rhaid i fy mab gael help gan gynghorydd ym Mhont-y-pŵl i gael pecyn rhyddhau i'm galluogi i fyw gartref."*

*"Dylai'r staff gofal nyrsio yn y ward strôc acíwt yn Ysbyty Brenhinol Gwent wrando ar y cleifion. Byddwn i'n dweud wrthyn nhw eu bod nhw'n brifo fy ysgwydd bob diwrnod ond doedden nhw ddim yn cymryd sylw. Yn y pen draw, cefais fy nhrosglwyddo i St Woolos i gael ffysio dwys ac roedd y gofal yn well o lawer yno diolch byth."*



Mae'n bwysig bod pobl yn teimlo bod gwasanaethau'r GIG sydd o fudd i'w hanghenion ar gael iddynt. Felly, gwnaethom ofyn *"A oes unrhyw wasanaethau ychwanegol gan y GIG nad ydynt ar gael i chi ar hyn o bryd a fyddai o fudd i'ch anghenion, yn eich barn chi?"*

**Oes:** 12 **Nac oes**: 4

Roedd yn amlwg wrth adolygu'r ymatebion i'r cwestiwn hwn y byddai'n well gan y rhan fwyaf o bobl gael dulliau cyfathrebu gwell ynghylch pa Wasanaethau'r GIG sydd ar gael iddynt pan fyddant yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty ac yn y gymuned ehangach.

Sylwadau:

*“Mae angen i oroeswyr strôc hirdymor gael dulliau cyfathrebu mwy effeithiol; dylai meddygfeydd meddyg teulu gael systemau awtomataidd sy'n cyfeirio goroeswyr strôc at wasanaethau BIPAB.”*

*Triniaeth sbastigedd effeithiol, Botox a thriniaeth niwro-ffysio ddilynol. Meddygon teulu'n cael eu hyfforddi i gyfeirio goroeswyr strôc yn y gymuned at y sianeli cywir i gael cymorth ac ymyriadau.”*

*“Byddai rhywfaint o wybodaeth am wasanaethau cymorth cyn i mi adael yr ysbyty wedi bod yn dda.”*

*“☐Cymorth therapi lleferydd hirdymor. Cymorth seicolegol i helpu cleifion i ddeall mwy am y math o strôc a sut i'w helpu i dderbyn cyflyrau yr effeithir arnynt a sut i ddelio â'r rhain, o ddydd i ddydd a chefnogi hunangymorth.”*

Dywedodd un person wrthym eu bod yn teimlo pe byddent yn cael eu cyflwyno i gynrychiolydd grŵp strôc lleol, y byddai ei wraig ac yntau wedi gwella'n llawer cyflymach. Roedd y ddau o'r farn, pe byddai hyn wedi digwydd, na fyddent wedi bod angen cael cymaint o gymorth o'r ysbyty.

Mae'r person hwn hefyd yn ysgrifennydd grŵp cymorth strôc lleol, sy'n elusen gofrestredig. Roeddent o'r farn y byddai gallu cwrdd â goroeswyr strôc cyn iddynt gael eu rhyddhau fod wedi eu helpu i ddysgu a deall pa gymorth sydd ar gael yn y gymuned.

Mae'n bwysig bod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch wrth ddefnyddio Gwasanaethau'r GIG. Felly, gwnaethom ofyn *“Wrth ddefnyddio Gwasanaethau'r GIG mewn perthynas â'ch anghenion*

*adsefydlu ar ôl strôc, ydych chi'n teimlo eich bod yn cael eich trin ag urddas a pharch?"*

Roedd yn galonogol darllen bod 13 o'r 16 o ymatebwyr wedi dweud wrthym eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch yn eu barn nhw. Fodd bynnag, nid oedd dau berson yn teimlo'r un ffordd.

Dywedodd un person wrthym ei fod o'r farn bod angen i'r staff ddysgu i *"arafu a gwrando"* wrth gyfathrebu dros y ffôn gyda goroeswyr strôc sydd â nam gwybyddol.



## Llesiant emosiynol/corfforol

Roeddem am ddysgu a oedd pobl sy'n defnyddio Gwasanaethau'r GIG mewn perthynas â'r broses o wella ar ôl strôc yn cael cefnogaeth o ran unrhyw anghenion llesiant emosiynol a/neu gorfforol. Roedd yn siomedig darllen mai dim ond pedwar person oedd yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth fel hyn.

Dywedodd un person wrthym ei fod wedi ymuno â grŵp strôc lleol, ynghyd â sawl grŵp ar-lein ar gyfer monitro cymheiriaid.

*"Chefais i ddim cefnogaeth o gwbwl, a bu'n rhaid i mi ofyn am gymorth ar ôl cael fy nwy strôc"*

Dywedodd person arall a oedd wedi cael strôc 12 mlynedd yn ôl wrthym y byddai *"bob amser yn gorfod gwneud cais am unrhyw driniaeth, dydw i erioed wedi cael fy nghyfeirio i gael archwiliad."*



Mae'n bwysig bod pobl yn gwybod pwy y gallant gysylltu â nhw os bydd angen unrhyw gefnogaeth neu gyngor arnynt gan wasanaeth y GIG mewn perthynas â'u hanghenion adsefydlu ar ôl strôc. Pan ofynnwyd y cwestiwn hwn, dim ond pedwar person oedd yn gwybod pwy y dylent gysylltu â nhw, sy'n golygu nad oedd mwy na hanner y bobl a lanwodd yr arolwg hwn yn gwybod â phwy y gallent gysylltu.

Sylwadau ychwanegol:

*"Roeddwn bob amser yn cael fy nghyfeirio at fy meddyg teulu. Â phob parch, doedd ganddo ddim syniad na gallu i helpu a chefnogi.*

*"Ar adeg fy strociau, chefais i ddim cyngor na help. Bu'n rhaid i mi ofyn am bopeth."*

*"Doeddwn i ddim yn gwybod bod unrhyw le (y gallwn gysylltu) - doedd hyn ddim yn cael ei hysbysebu"*

Cawsom ymatebion cymysg pan wnaethom ofyn, *"Oes unrhyw addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i ddiwallu eich anghenion wrth ddefnyddio gwasanaethau'r GIG?"*

Yn galonogol, dywedodd wyth person wrthym fod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i ddiwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, dywedodd saith person wrthym nad oedd hyn yn digwydd iddynt wrth ddefnyddio Gwasanaethau'r GIG.

Dywedodd un person wrthym fod ei ffisiotherapydd a'i weithiwr cymdeithasol wedi gwneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer.

## Gwneud penderfyniadau am ofal

Gwnaethom hefyd ofyn i bobl *"Ydych chi'n teimlo eich bod chi/eich teulu yn cael eich cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch eich gofal?"*

Yn yr un modd, cawsom ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn. Roedd saith person o'r farn eu bod yn cael eu cynnwys ond nid oedd naw person o'r farn eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal.

Sylwadau:

*"Doeddwn i ddim yn cael fy nghynnwys, ac ni ofynnwyd i fy mherthnasau a bu'n rhaid i mi ofalu amdanaf fy hun ar ôl gadael yr ysbyty."*

*"Mae fy merch yn gefnogol iawn"*

## Adsefydlu ar ôl strôc

Y cwestiwn olaf y gwnaethom ei ofyn i bobl oedd *"Ydych chi'n teimlo bod Gwasanaethau'r GIG a gaiff eu defnyddio gennych ar hyn o bryd yn cynorthwyo eich cyfnod adsefydlu ar ôl strôc?"*

Roedd chwe pherson arall o'r farn bod Gwasanaethau'r GIG a ddefnyddir ganddynt yn cefnogi eu cyfnod adsefydlu ar ôl strôc. Er, nid oedd naw person yn teimlo'r un ffordd. Ni roddwyd unrhyw sylwadau pellach.

Sylwadau eraill:

*"Gall gwybodaeth i oroeswyr strôc pan gânt eu rhyddhau fod yn effeithiol yn BIPAB. Mae gwasanaethau ar gyfer goroeswyr strôc hirdymor yn wael iawn. Mae prinder gwybodaeth ofnadwy, mewn meddygfeydd meddyg teulu ac ar wefannau BIPBC"*

*"Fyddwn i ddim yn gwybod ble i droi i gael gofal ar ôl cael strôc. Mae'n ddigon anodd cael apwyntiad gyda fy meddyg teulu."*

*"Rwy'n teimlo y dylai rhywun fod wedi cysylltu i weld fy mod dal yn fyw"*

*"Chefais i ddim gwybodaeth na galwad ddilynol nes i fy meddyg teulu ofyn ar fy rhan. Ar ôl fy strôc gyntaf bûm yn cael poen yn fy ngwddf a chefais wybod bod gen i anaf asgwrn cefn serfigol na chafodd ei nodi pan gefais sgan CT. Cefais y sgan yn Nevill Hall ddau fis ar ôl bod gartref. Cefais fy nghyfeirio'n ôl i Ysbyty Athrofaol Cymru. Ym mis Mehefin 2005, saith mis yn ddiweddarach, cefais sgan MRI a gofynnodd meddyg i mi pa driniaeth a gefais ar gyfer y gwaedlif ar fy ymennydd. Dywedais nad oeddwn i wedi cael unrhyw driniaeth. Doedden nhw ddim yn gallu dod o hyd i'm cofnodion chwaith. Cefais wybod bod gen i hydroceffalws pan es i'n ôl i Gaerdydd ym mis Rhagfyr 2005 ar gyfer pwysedd ar yr ymennydd. Roeddent yn pendroni pam na allwn i gerdded o gwmpas heb ddal gafael mewn pethau a gwnaethant ofyn ble roedd fy ffyn. Dywedais nad oeddwn wedi cael rhai. Bu'n rhaid i mi ofyn am ffyn cerdded a ffrâm, ac a allwn i gael ffysio gan na chefais unrhyw ôl-ofal.*

*"Rwy'n meddwl bod angen mwy o gymorth pan oeddwn i yn yr ysbyty a mwy o wybodaeth am anafiadau ar yr ymennydd gan nad oeddwn i'n gwybod dim. Rwy'n meddwl, pe byddwn i wedi cael siarad â rhywun sydd wedi bod drwy'r un peth, y byddwn i wedi cael gwell dealltwriaeth o'r hyn roeddwn i'n ei wynebu."*

## Ymateb o'r digwyddiad galw heibio






Fel y soniwyd ar ddechrau'r adroddiad hwn, trefnodd y CIC sesiwn galw heibio i bobl siarad â'n haelodau gwirfoddol er mwyn cael eu hadborth wyneb yn wyneb. Cynhaliwyd y sesiwn galw heibio ym mis Tachwedd 2022.

Un person a alwodd heibio. Roedd y person hwn yn gysylltiedig â grŵp cymorth lleol, ac aeth â swp o'n harolygon i'w dosbarthu i aelodau o'r grŵp cymorth.

Cawsom yr adborth canlynol ganddo:

- Diffyg gwybodaeth
- Dim cysylltiad rhwng Gwasanaethau'r GIG a chymorth Gofal Cymdeithasol

*"Dydych chi ddim yn gwybod pa gymorth y mae gennych hawl iddo pan fyddwch wedi cael strôc."*

Dywedodd y person hwn wrthym hefyd am ei syniad ynghylch "cofrestr i oroeswyr strôc". Byddai pobl sydd wedi cael strôc ac a oedd yn barod i fynd ar "gofrestr" yn gallu cyfathrebu â phobl sydd wedi cael profiad tebyg ac i rannu adnoddau gwybodaeth a allai eu helpu i wella.

# Casgliad

Cafodd thema gyffredin ei nodi wrth ystyried yr adborth ar gyfer yr arolwg hwn. Nodwyd y diffyg gwybodaeth am Wasanaethau'r GIG sydd ar gael yn y gymuned, er mwyn eu helpu â'u cyfnod adsefydlu ar ôl strôc. Fodd bynnag, nododd y bobl eu bod wedi cael profiadau "da" wrth ddefnyddio Gwasanaethau'r GIG fel Tîm Strôc Cymunedol, Therapyddion Galwedigaethol, Gwasanaeth Cymorth i Gleifion Strôc a Ryddheir yn Gynnar, a gwasanaethau meddyg teulu.

Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at faes y mae angen ei wella, fel:

- Pobl ddim yn gwybod sut i gysylltu na phwy y dylent gysylltu â nhw os bydd angen cymorth neu gyngor arnyn nhw gan Wasanaeth y GIG.

- Pobl ddim yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi â'u hanghenion llesiant emosiynol a/neu gorfforol.

- Sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael yn rhwydd i bobl sydd am wybod pa Wasanaethau'r GIG sydd ar gael iddynt yn y gymuned i'w helpu i gefnogi eu hanghenion adsefydlu.

- Gwasanaethau adsefydlu penodol fel y nodir yn yr adroddiad hwn.

# Argymhellion

**1)** Byddai'r CIC yn falch pe gellid rhannu'r adborth cadarnhaol yn yr adroddiad hwn â'r bobl/timau perthnasol.

**2)** Hoffai'r CIC ddeall sut a ble y gellir cael gafael ar wybodaeth os hoffai rhywun wybod pa Wasanaethau'r GIG sydd ar gael iddynt yn y gymuned. Byddai'n dda gwybod bod y wybodaeth yn cael ei chynnig gan y staff yn hytrach na bod yn rhaid i'r person ofyn amdani.

**3)** Dylid gofyn i'r Bwrdd Iechyd ystyried yr adborth gan bobl sy'n teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi ag unrhyw anghenion llesiant emosiynol a/neu gorfforol mewn perthynas â'u cyfnod adsefydlu ar ôl strôc.

**4)** Dylid gofyn i'r Bwrdd Iechyd bennu eu cynlluniau i fynd i'r afael â'r materion a godir yn yr adroddiad hwn.

# Diolchiadau

Hoffai'r CIC ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn â ni, a gobeithio y bydd yr adborth yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda a'u galluogi i gymryd camau cyn gynted â phosibl i wella pethau lle bo angen.

Hoffem ddiolch hefyd i'n haelodau CIC sydd wedi gwirfoddoli i gymryd rhan yn ein sesiwn galw heibio.



# Ynglŷn â Chynghorau Iechyd Cymuned (CICau)

CICau yw corff gwarchod annibynnol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae CICau yn annog pobl i leisio eu barn am y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG, ac yn eu cefnogi i wneud hynny.

Mae CICau yn gweithio gyda'r GIG, cyrff arolygu a chyrff rheoleiddio. Mae CICau yn darparu dolen gyswllt bwysig rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau'r GIG, y rhai sy'n eu harchwilio a'u rheoleiddio, a'r rhai sy'n eu defnyddio.

Mae CICau yn cael adborth gan y cyhoedd mewn sawl ffordd. Cyn pandemig y coronafeirws, roedd CICau yn ymweld â gwasanaethau'r GIG yn rheolaidd er mwyn clywed gan bobl wrth iddynt gael gofal a thriniaeth. Roedd CICau hefyd yn clywed gan bobl mewn digwyddiadau cymunedol lleol a thrwy gynrychiolwyr a grwpiau cymunedol.




Ers pandemig y coronafeirws, mae CICau wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl mewn ffyrdd gwahanol.

Mae hyn yn cynnwys arolygon, apiau, fideogynadleddau a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn clywed gan bobl yn uniongyrchol am eu barn am wasanaethau'r GIG a'u profiadau o'u defnyddio, yn ogystal â thrwy grwpiau cymunedol.

Mae saith CIC yng Nghymru. Mae pob un ohonynt yn cynrychioli llais "y cleifion a'r cyhoedd" mewn rhan wahanol o Gymru.

# Manylion cyswllt

Aneurin Bevan Community Health Council
Raglan House
William Brown Close
Llantarnam Business Park
Cwmbran
NP44 3AB

01633 838516

**Enquiries.AneurinBevanCHC@waleschc.org.uk**

**www.aneurinbevanchc.nhs.wales**

@Bevanchc

CIC Aneurin Bevan CHC

## Canlyniadau'r arolwg o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

| **Dewis Iaith** | | |
|---|---|---|
| **Saesneg** | **Arall** | **Heb ateb** |
| 6 | 0 | 10 |

| **Rhywedd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Menyw/Merch** | **Dyn/Bachgen** | **Anneuaidd** | **Byddai'n well gen i beidio â dweud** | **Arall** | **Heb ateb** |
| 2 | 5 | 0 | 0 | 0 | 9 |

| **A ydych yn ystyried eich bod yn berson traws?** | | | |
|---|---|---|---|
| **Ydw** | **Nac ydw** | **Byddai'n well gen i beidio â dweud** | **Heb ateb** |
| 0 | 7 | 0 | 9 |

| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anrhywiol** | **Deurywiol** | **Hoyw** | **Lesbiaidd** | **Heterorywiol/ Syth** | **Panrywiol** | **Byddai'n well gen i beidio â dweud** | **Arall** | **Heb ateb** |
| 0 | 0 | 1 | 0 | 6 | 0 | 0 | 0 | 9 |

| **Mis a Blwyddyn geni** |
|---|

| Ion | Chwe | Maw 1950-60 | Ebr 1960-70 | Mai 1930-40 | Meh 1950-60 | Gorff 1940-50 | Awst 1930-40 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Medi** | **Hyd** | **Tach 1940-50** | **Rhag** | | **Heb ateb** | | |
| 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 9 | | |

| **Ethnigrwydd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig:** | | | | |
| **Bangladeshaidd** | **Tsieineaidd** | **Indiaidd** | **Pacistanaidd** | **Arall** |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| **Du neu Ddu Prydeinig:** | | |
|---|---|---|
| **Affricanaidd** | **Caribïaidd** | **Arall** |
| 0 | 0 | 0 |

| **Gwyn:** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig** | **Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig** | **Gwyddelig** | **Arall** |
| 6 | 0 | 0 | 0 |

| **Grŵp Ethnig arall:** | | |
|---|---|---|
| **Arabaidd** | **Byddai'n well gen i beidio â dweud** | **Arall** |
| 0 | 0 | 0 |

| **Crefydd neu gred** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bwdhaeth | Cristnogaeth | Hindŵaeth | Islam | Iddewiaeth |
| 0 | 5 | 0 | 0 | 0 |
| Siciaeth | Anffyddiaeth | Dim Crefydd | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | Crefydd neu gred arall |
| 0 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| Heb ateb | 9 | | | |

| **A ydych yn ystyried bod gennych anabledd?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | Heb ateb |
| 5 | 2 | 0 | 9 |

| **A ydych yn feichiog ar hyn o bryd neu a ydych wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Heb ateb | Byddai'n well gennyf beidio â dweud |
| 0 | 7 | 9 | 0 |

| **A ydych yn gofalu am aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog, neu'n rhoi unrhyw gymorth iddo, o ganlyniad i anabledd corfforol hirdymor, anhawster dysgu, salwch meddwl neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | Heb ateb |
| 1 | 6 | 0 | 9 |

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cwblhewch y tabl canlynol er mwyn nodi a fydd y polisi/gweithgaredd yn cael effaith andwyol, gadarnhaol neu wahaniaethol ar y

grwpiau canlynol, neu drwy nodi na fydd unrhyw effaith o gwbl

| **Effaith** | **Dim** | **Negyddol** | **Cadarnhaol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion Gwarchodedig** | | | | |
| Oedran | x | | | |
| Anabledd | x | | | Mae holl arolygon y CIC ar gael mewn fformat gwahanol ar gais. |
| Rhyw | X | | | |
| Hil | X | | | |
| Crefydd/Credoau | X | | | |
| Cyfeiriadedd rhywiol | X | | | |
| Ailbennu rhywedd | X | | | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | X | | | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | x | | | |
| **Nodweddion eraill i'w hystyried** | | | | |
| Y Gymraeg | | | x | Adroddiadau ac Arolygon wedi'u cyhoeddi ar ffurf ddwyieithog |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ieithoedd eraill | | x | | Gellir cyhoeddi Adroddiadau ac Arolygon yn yr iaith ofynnol ar gais |
| Hawliau dynol | x | | | |
| Lefel tlodi | x | | | |
| Unigolion â dibynyddion | x | | | |
| Poblogaeth wledig | x | | | |
| Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr | x | | | |
| Unigolion sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio technoleg ddigidol | | x | | Dim ond ar-lein yr oedd yr arolwg ar gael. Fodd bynnag, os byddai unigolyn yn cysylltu â swyddfa'r CIC, byddai copïau wedi'u hargraffu yn cael eu hanfon yn ddi-oed. |

## Asesiad Risg

**A oes unrhyw risgiau'n codi wrth roi'r polisi hwn ar waith?**

Amherthnasol

**Pa fesurau sydd ar waith i reoli neu ddileu'r risgiau hyn?**

Amherthnasol

**Y Gymraeg**

Mae'r ddogfen hon/polisi hwn wedi'i hasesu/asesu yn unol â'n gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer safonau:

i) 37, 38
ii) 69, 70, 71

Wrth benderfynu ar yr effaith, gwnaethom ofyn am gyngor/adolygu tystiolaeth/ystyried y canlynol:

Mae pob dogfen gyhoeddus gan y CIC ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r CIC yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg.

**Canlyniad**

Effaith gadarnhaol –

Safonau 37, 38 – Caiff pob dogfen gyhoeddus ei llunio a'i chyhoeddi'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Safonau 69-71 – Rydym yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg

Effaith Negyddol – Dim

# Fformatau hygyrch

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.